Ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- addysg oedolion a chymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfa; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir pan aeth i'r wasg. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau mewn perthynas â'r ddogfen/cyhoeddiad at:

Adran Cyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cafodd y ddogfen hon ei chyfieithu gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2006: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y bod yn cael ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Sail dystiolaeth y cyngor 2

Prif ganfyddiadau **3**

Argymhellion **5**

Anghenion cymorth ac addysg a hyfforddiant pobl ifanc sy'n troseddu **7**

Anghenion penodol merched ifanc sy'n troseddu 8

Pa mor dda mae'r bobl ifanc hyn yn cael eu hasesu **9**

Asesiad priodol o anghenion addysgol pobl ifanc 9
Yr asesiad a'r cymorth ar gyfer bodloni anghenion medrau sylfaenol pobl ifanc 9

Y safonau y mae pobl ifanc yn eu cyflawni **11**

Pa mor dda mae pobl ifanc yn cael mynediad i'w hawl i addysg a hyfforddiant **13**

Mynediad i 25 awr o addysg neu weithgarwch dan oruchwyliaeth bob wythnos 13

Ystod y cyfleoedd cwricwlwm i bobl ifanc **16**

Addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol 16
Gwaith penodol i gynorthwyo twf hunan-barch 17
Cymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig 18
Gweithgareddau hamdden i gynnal pobl ifanc nes ymlaen yn eu bywydau 18
Achrediad a hyfforddiant medrau priodol 19

Mentrau gan TTIau i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth **20**

Pa mor dda mae TTIau yn gweithio gydag asiantaethau eraill i ddarparu addysg a hyfforddiant priodol **21**

Gweithio gydag AALlau 22
Gweithio gyda phartneriaethau pobl ifanc 23
Gweithio gyda Gyrfa Cymru 24
Gweithio gyda'r gwasanaeth ieuenctid 24
Gweithio gyda rhieni/gofalwyr 24
Gweithio gyda'r ystâd ddiogel 25

Y prif rwystrau sy'n atal pobl ifanc sy'n troseddu rhag cael addysg a hyfforddiant priodol **26**

Casglu data 26
Targedau i godi safonau 26
Anghenion penodol pobl ifanc dros 16 oed 26

Y defnydd cyfyngedig o gynlluniau dysgu unigol 27
Yr anhawster o gael mynediad i wybodaeth, a chofnodi gwybodaeth am anghenion addysgol ychwanegol pobl ifanc 27
Y cyngor cyfyngedig ar yrfaoedd i bobl ifanc yn yr ystâd ddiogel 27

Atodiadau

Atodiad 1 Yr oriau o addysg a hyfforddiant a gaiff pobl ifanc
Atodiad 2 Gweithio effeithiol mewn partneriaeth rhwng TTIau a darparwyr
Atodiad 3 Enghreifftiau o'r modd y mae TTIau yn cysylltu â chynlluniau cymorth ymddygiad eu AALlau
Atodiad 4 Y modd y mae AALlau yn darparu hyfforddiant priodol i weithwyr TTIau
Atodiad 5 Y modd y mae TTIau yn gweithio gyda'r ystâd ddiogel i helpu pobl ifanc drosglwyddo'n esmwyth i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth pan gânt eu rhyddhau o'r ddalfa

Cyflwyniad

1 Roedd cylch gorchwyl Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2004-2005 yn cynnwys cais am gyngor ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol a hyfforddiant i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid[1]. Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru am gyngor ar ansawdd a darpariaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth timau troseddau ieuenctid (TTIau), yn erbyn unrhyw ofynion cyfreithiol. Canfu'r adroddiad bod rhwystrau sylweddol yn atal pobl ifanc o Gymru yn yr ystâd ddiogel rhag cael eu hawl lawn i addysg a hyfforddiant priodol. Cafodd y rhwstrau hyn effaith negyddol ar eu dysgu gan wneud ailintegreiddio i ysgolion yn anodd.

2 Roedd cylch gorchwyl Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2005-2006 yn gofyn am gyngor pellach ar brofiad pobl ifanc unigol o addysg a hyfforddiant yn y system cyfiawnder ieuenctid a barn ar safonau cyflawniad.

3 Mae'r cyngor hwn yn rhoi sylwadau ar y safonau a gyflawnir gan bobl ifanc sy'n troseddu â'u hanghenion addysg a hyfforddiant penodol. Nodwn pa mor dda y mae'r bobl ifanc hyn yn cael mynediad i gwricwlwm sy'n briodol i'w hanghenion. Arfarnwn pa mor dda y mae asiantaethau'n gweithio gyda TTIau i ddarparu addysg a hyfforddiant priodol a'r mentrau gan TTIau i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Yn olaf, archwiliwn y prif rwystrau sy'n atal y bobl ifanc hyn rhag cael mynediad i addysg a hyfforddiant priodol. Hefyd, nodwn rai o'r camau gweithredu cadarnhaol sydd wedi'u cymryd i oresgyn y rhwystrau hyn. Gydol y cyngor nodwn arfer dda a fydd yn helpu cefnogi datblygiad pellach.

4 Mae 'Gwell Cymru' yn nodi gwerthoedd craidd Cynulliad Cymru, sef cynhwysiad cymdeithasol, cyfle cyfartal a hyrwyddo cymdeithas oddefgar lle gwerthfawrogir amrywiaeth. Mae'r dyheadau hyn yn gymwys i bob person ifanc, gan gynnwys y rheini sy'n troseddu.

5 Mae 'Y Wlad sy'n Dysgu' a 'Llwybrau Dysgu 14-19'[2] yn cydnabod amrywiaeth yr ymagweddau dysgu y mae eu hangen ar bobl gwahanol, a'r cyfraniadau y gall y bobl hynny eu gwneud i gymdeithas os yw eu dysgu wedi bod yn llwyddiannus. Bydd y llwybrau dysgu newydd yn gyfle i fodloni anghenion bob person ifanc yn llawn a rhoi cymorth gwell iddynt.

6 Mae 'Ymestyn Hawliau' a'r cyfarwyddiadau a'r arweiniad cysylltiedig i bartneriaethau pobl ifanc yn nodi hawliau cyffredinol sylfaenol i bob person ifanc rhwng 11 a 25 oed

7 Mae Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yn nodi strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer atal troseddu yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd addysg a hyfforddiant priodol mewn atal troseddu, a gwna gysylltiadau cryf ag 'Ymestyn Hawliau'.

---

[1] Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer pobl ifanc Cymreig yn y system cyfiawnder ieuenctid Estyn Mai 2005

[2] Llwybrau Dysgu 14-19 Cylchlythyr Cyfarwyddyd Gorffennaf 2004.

8 Canfu adroddiad diweddar gan y Comisiwn Archwilio[3] bod cyfanswm o 9,100 o blant wedi'u gwahardd yn barhaol o'r ysgol yng Nghymru a Lloegr, a bod rhai yn aros hyd at flwyddyn cyn y darperir addysg amgen iddynt. Adrodda'r Comisiwn bod llawer o rai eraill wedi'u gwahardd yn anffurfiol neu y darpaerir amserlenni ysgol diwygiedig iddynt sy'n rhoi ychydig neu ddim hyfforddiant, ac nid yw niferoedd mawr o ddisgyblion wedi cofrestru mewn unrhyw fath o addysg.

9 Mae llawer o bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid wedi'u gwahardd yn barhaol o ysgolion. Mae'r bylchau hyn yn y ddarpariaeth yn cael effaith negyddol ar eu cyfleoedd bywyd a gwaith y system cyfiawnder ieuenctid i leihau troseddu.

10 Mae prosiect dysgu troseddwyr ifanc Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gynllunio i wella'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant sydd ar gael i bob person ifanc o 11-25 oed yng Nghymru ac o Gymru sy'n hysbys i dimau troseddau ieuenctid neu fel arall sy'n gleientiaid yn y system cyfiawnder troseddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu cynllun peilot hefyd ar gyfer cymorth personol yn y ddalfa er mwyn rhoi cymorth i bobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn y ddalfa a phan gânt eu rhyddhau. Mae gweithwyr ieuenctid hyfforddedig yn gweithio yn STI Ashfield a Stoke Heath gyda phobl ifanc o TTI Pen-y-bont ar Ogwr a Chonwy/Sir Ddinbych. Nod y cymorth hwn yw helpu pobl ifanc i drosglwyddo'n llwyddiannus o'r ddalfa i'r gymuned. Bydd y cyngor hwn yn cynorthwyo datblygiadau pellach yn y gwaith hwn.

11 Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) wedi darparu arweiniad yn ddiweddar[4] er mwyn i'r staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc allu nodi a chymhwyso arfer effeithiol, ym mha le bynnag y gweithiant yn y system cyfiawnder ieuenctid. Ategir yr arweiniad hwn gan fframwaith sicrhau ansawdd, a elwir y fframwaith arfer effeithiol: sicrhau ansawdd (EPQA). Mae'r fframwaith yn gylch integredig o asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Mae wedi'i gynllunio i helpu gweithwyr i fod yn fwy effeithiol ac i wneud yn siwr bod yr holl asiantaethau yn dangos, neu'n gweithio tuag at gyflawni, y safonau proses a gwasanaeth gofynnol. Mae'r cyngor hwn yn nodi'r hyn y mae angen ei wella yn ansawdd a darpariaeth addysg a hyfforddiant, a bydd yn dylanwadu ar y gwaith hwn.

Sail dystiolaeth y cyngor

12 Rhwng mis Ebrill 2005 a mis Chwefror 2006, ymwelodd dau AEM â phump TTI a phedwar lleoliad diogel. Ymwelom hefyd â dau TTI fel rhan o'r cylch arolygiadau. Mae'r cyngor hwn yn tynnu ar ganfyddiadau'r ymweliadau a'r arolygiadau hyn. Yn ystod yr ymweliadau, buom yn archwilio dogfennau ac yn cynnal trafodaethau gyda staff TTI ac AALl a phartneriaid ac asiantaethau allweddol. Buom yn arsylwi ac yn siarad â phobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth y TTI mewn ystod eang o leoliadau addysg a hyfforddiant. Hefyd, defnyddiwyd dystiolaeth o holiaduron i AALlau a rheolwyr TTIau. Ysgrifennom at bob un o'r 22 AALl a 18 TTI yn gofyn iddynt lenwi holiaduron am ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddu. Ymatebodd bedwar ar ddeg AALl ac 13 TTI. Gofynnwyd hefyd i bob TTI yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth am yr addysg a'r hyfforddiant yr oedd pobl ifanc yn y gymuned, o dan eu goruchwyliaeth, yn eu cael ar ddiwrnod penodol. Darparwyd y wybodaeth hon gan 13 o 18 TTI. Roedd y wybodaeth hon yn edrych ar hawl yn

[3] Cyfiawnder Ieuenctid 2004: Adolygiad o'r system cyfiawnder ieuenctid ddiwygiedig, Ionawr 2004
[4] Prif Elfennau Arfer Effeithiol, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2006

hytrach nag ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant yr oedd pobl ifanc yn eu cael ar y diwrnod penodol.

Prif ganfyddiadau

13 Mae llawer o rwystrau pwysig o hyd sy'n atal pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid rhag cael addysg a hyfforddiant priodol. Nid yw materion a gafodd eu hamlygu yng nghyngor y llynedd wedi cael sylw eto. Fodd bynnag, mae'r cyngor hwn yn nodi llawer o enghreifftiau o fentrau effeithiol sy'n gweithio i oresgyn y rhwystrau hyn. Hefyd, mae parodrwydd cynyddol ymhlith partneriaid i weithio gyda'i gilydd pan fyddant yn ymwybodol o'r materion sy'n cael effaith negyddol ar bobl ifanc sy'n troseddu.

14 Yn gyffredinol, medrau sylfaenol gwael sydd gan bobl ifanc sy'n troseddu, ac yn aml maent wedi cael gwaharddiadau cyfnod penodol neu maent wedi'u gwahardd yn barhaol o'r ysgol. Ni allant reoli'u hymddygiad yn effeithiol, ac mae angen llawer iawn o gymorth wedi'i dargedu arnynt os ydynt i gyflawni'n addysgol i lefelau pobl ifanc nad ydynt yn troseddu. Pan gânt ddarparieath addysgol briodol a chymorth personol, cymerant gamau arwyddocaol o ran ailgydio yn eu dysgu, a datblygant fedrau personol ac ymarferol pwysig. Fodd bynnag, mae gormod o'r bobl ifanc hyn nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant.

15 Ar 13 Medi 2005, roedd 63% o'r holl bobl ifanc o dan oruchwyliaeth yn y gymuned gan dri ar ddeg TTI a ymatebodd, yn cael y 25 awr a argymhellir. Nid oedd 30% yn cael unrhyw addysg neu hyfforddiant. Nid oedd ymron i 50% o'r holl ferched ifanc a dynion ifanc 16-19 oed yn cael unrhyw addysg neu hyfforddiant. Ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng niferoedd y merched ifanc a dynion ifanc nad oeddent yn cael addysg neu hyfforddiant. Gwelir y ffigurau yn Atodiad 1.

16 Nid oes data wedi'i gasglu o hyd gan y BCI, Llywodraeth Cynulliad Cymru nac AALlau ar gyrhaeddiad neu gyflawniadau unigolion neu'r grŵp o bobl ifanc sydd dan oruchwyliaeth TTIau. Golyga hyn nad oes unrhyw ddata canlyniadau i ddangos yr hyn y mae'r bobl ifanc hyn yn ei gael o'r ddarpariaeth a wneir ar eu cyfer.

17 Nid yw AALlau yn cyflawni'u dyletswydd statudol o hyd i ddarparu 25 awr o addysg neu weithgarwch dan oruchwyliaeth yr wythnos i bobl ifanc sydd wedi'u gwahardd. Mae llawer o bobl ifanc sy'n troseddu yn y grŵp hwn o bobl ifanc. Nid yw AALlau a TTIau yn gweithio'n ddigon agos â'i gilydd i gysylltu'r angen hwn â thargedau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac i gynyddu nifer yr oriau o addysg a hyfforddiant a roddir i bobl ifanc.

18 Mae TTIau wedi cyflwyno ystod eang o fentrau i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys gweithgareddau i annog twf hunan-barch pobl ifanc. Mae TTIau yn ystyried bod y gwaith hwn i wella hunan-barch pobl ifanc yn rhan bwysig o'u rôl. Yn gyffredinol, gwnant ddefnydd da iawn o ystod eang o bartneriaid yn y gymuned i gyflwyno rhaglenni i bobl ifanc.

19 Mae partneriaethau pobl ifanc (PPIau) bellach yn fwy ymwybodol o bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid ac maent yn dechrau cynllunio ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid oes digon o gynlluniau cyfiawnder ieuenctid TTI yn nodi'r modd y bydd y TTI yn gweithio gyda'r PPI i gynyddu nifer yr oriau a dreulia pobl ifanc mewn addysg

a hyfforddiant amser llawn, ac ansawdd y ddarpariaeth hon. Hefyd, nid yw'r cynlluniau'n cysylltu amcanion a thargedau TTI â rhai'r PPI.

20 Nid yw pobl ifanc dros 16 oed yn cael mynediad i ddigon o leoliadau mewn dysgu yn y gwaith, cyfleoedd ar gyfer swyddi â chymhorthdal neu ddigon o gymorth gyda medrau sylfaenol. Nid yw ELWa, y corff cyfrifol pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, yn rhoi digon o gymorth i'r grŵp hwn o bobl ifanc, ac nid yw'n gweithio'n ddigon agos â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

21 Nid yw pobl ifanc yn cael digon o fynediad i ystod o gyfleoedd cwricwlwm, gan gynnwys gwaith TGAU, mynediad i'r Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig, addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd, asesiadau a darpariaeth medrau sylfaenol. Nid ydynt yn cael digon o wybodaeth yn yr iaith o'u dewis. Nid yw pobl ifanc yn y ddalfa yn cael cymorth ac arweiniad priodol bob amser gan gynghorwyr gyrfa.

Argymhellion

22 Er mwyn gwneud cynnydd pellach ar lefel genedlaethol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid lle bo'n briodol:

A1 gasglu data arwahanol ar gyflawniad y grŵp o bobl ifanc sydd dan oruchwyliaeth TTIau;

A2 adolygu safonau'r TTI i gynnwys safonau ar ansawdd yr addysg a'r canlyniadau addysgol ar gyfer pobl ifanc, sy'n aros yn y gymuned neu sy'n dychwelyd i'r gymuned o dan oruchwyliaeth y TTI ar ôl cyfnod yn y ddalfa;

A3 gwneud i AALlau weithio'n agosach gyda TTIau i gyfrannu at gynlluniau cyfiawnder ieuenctid a darparu addysg amser llawn i bob person ifanc, o oed ysgol, sydd dan oruchwyliaeth y TTI;

A4 pennu gofyniad ar TTIau i wneud yn siwr bod yr holl gysylltiadau â phartneriaid eraill, ac yn benodol y PPI, yn cael eu ffurfioli yng nghynlluniau cyfiawnder ieuenctid y TTI;

A5 gofalu bod bob person ifanc sy'n troseddu yn cael mynediad i gymorth ac arweiniad gan gynghorwyr Gyrfa Cymru;

A6 gweithio gyda'i gilydd i adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddu i gael lleoliadau mewn dysgu yn y gwaith er mwyn ymestyn eu cyfleoedd;

23 Er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddu, dylai AALlau:

A7 gynorthwyo TTIau wrth asesu'r ddarpariaeth a ddarperir i roi sylw i anghenion medrau sylfaenol pobl ifanc a hyfforddiant perthnasol mewn materion addysgol;

24 Er mwyn gwellau cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth, dylai'r ystâd ddiogel a TTIau:

A8 wella trefniadau â staff addysg ar gyfer adolygiadau mewn lleoliadau diogel.

25 Wrth ddarparu addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddu, dylai AALlau, darparwyr addysg a hyfforddiant a'r ystâd ddiogel lle bo'n briodol:

A9 roi pob cyfle i bobl ifanc gael mynediad i'r llwybr 14-19 llawn;

A10 cynyddu ystod a nifer y lleoliadau addysg prif ffrwd ac amgen i bobl ifanc sy'n troseddu;

A11 gwella'r ystod o gyfleoedd cwricwlwm i bobl ifanc sy'n troseddu er mwyn iddynt gael:

- darpariaeth amser llawn;

- cyfleoedd ar gyfer addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd ac i ddatblygu'u medrau sylfaenol;

- cyfleoedd wedi'u hintgreiddio'n llawn i wella'u medrau sylfaenol yn eu dysgu yn gyffredinol; a

- chyfleoedd i gael eu hawl i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu am Y Cwricwlwm Cymreig;

26 Wrth weithio gyda phobl ifanc yn y gymuned, dylai TTIau:

A12 wneud yn siwr bod ffurflenni ASSET[5] yn cael eu llenwi'n drylwyr ac yn cael eu hadolygu'n gyson gan bob aelod o staff TTI;

A13 gwneud defnydd gwell o brosiectau/gweithgareddau presennol sydd ar gael i bobl ifanc yn yr ardal leol, y gellir cael mynediad i lawer ohonynt drwy'r Partneriethau Pobl Ifanc;

A14 gwneud yn siwr bod AALlau yn gwybod pa bobl ifanc o oed ysgol statudol sy'n gysylltiedig â'r TTI; a

A15 gwella'r ddarpariaeth i bob person ifanc i gael gwybodaeth gan TTIau a STIau yn yr iaith o'u dewis.

[5] Hwn yw'r prif offeryn asesu a ddefnyddir yn y system cyfiawnder ieuenctid i asesu risg aildroseddu a'r ymyriadau sy'n ofynnol i gynorthwyo pobl ifanc.

Anghenion cymorth ac addysg a hyfforddiant pobl ifanc sy'n troseddu

27 Canfu 'Cynnal Diddordeb Pobl Ifanc, Adroddiad terfynol Blwyddyn 2: Medi 2004-Awst 2005'[6] bod mwyafrif y bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid wedi cael profiadau gwael o'r ysgol a'u bod yn casáu dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Roedd llawer wedi'u gwahardd o addysg y brif ffrwd, roedd ganddynt fedrau sylfaenol gwael ac ychydig iawn o gymwysterau. Roedd diffyg hunan-barch a hunanhyder isel yn effeithio ar barodrwydd llawer o'r bobl ifanc i fod yn gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

28 Mae anghenion lluosog gan bobl ifanc sy'n gadael y ddalfa. Mae ymron i hanner wedi bod mewn gofal awdurdod lleol ar ryw adeg. Mae anawsterau iechyd meddwl gan ymron i draean. Mae ychydig dros hanner wedi bod yn ddibynnol ar sylwedd. Mae dros draean o ferched a chwarter y bechgyn wedi adrodd iddynt ddioddef trais yn y cartref. Roedd gan dros draean poblogaeth y sefydliad troseddwyr ifanc (STI) o oed ysgol gorfodol oed darllen o saith neu'n iau[7].

29 Cadarnhawyd y canfyddiadau hyn gan ein hymweliadau â TTIau. Mae angen llawer iawn o gymorth wedi'i dargedu ar bobl ifanc sy'n troseddu os ydynt i gyflawni'n addysgol i lefelau pobl ifanc nad ydynt yn troseddu. Yn aml, nid yw anghenion addysgol arbennig y bobl ifanc hyn wedi'u bodloni, nid ydynt wedi'u hasesu'n ddigon cynnar neu ni chafwyd ymyriadau addas. Mae'r rheini sydd ag anawsterau hirsefydlog fel cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad gwael a chymorth gwael gan rieni, sydd â phatrwm o droseddu. Mae pobl ifanc eraill sy'n troseddu yn gwneud yn dda mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ond cyflawnant drosedd, ac ymyriad byr yn unig sy'n ofynnol. Mae medrau sylfaenol gwael, a lefelau medrau llythrennedd a rhifedd sydd ymhell islaw eu cyfoedion gan lawer o'r bobl ifanc sydd dan oruchwyliaeth TTIau. Gwneir hyn yn waeth yn aml yn sgil colli'r ysgol oherwydd diffyg presenoldeb neu waharddiadau cyfnod penodol.

30 Mae gan fwyafrif y bobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio at dimau troseddau ieuenctid anawsterau ymddygiad, cymdeithasol ac emosiynol. Mae angen help arnynt i reoli'u hymddygiad yn llwyddiannus. Mae llawer o bobl ifanc wedi cael cysylltiad â'r gwasanaeth cymorth ymddygiad lleol. Er enghraifft, mae 54% o bobl ifanc sydd wrthi'n cael addysg gan y gwasanaeth addysg amgen yng Nghonwy ar hyn o bryd yn hysbys i'r TTI. Adlewyrchir y ffigurau hyn yn Sir Ddinbych i raddau ychydig yn llai.

31 Mae llawer o bobl ifanc, sydd dan oruchwyliaeth TTIau, â phresenoldeb gwael ac maent wedi cael bywyd ansefydlog yn y cartref. Yn aml, mae llawer o'r bobl ifanc hyn wedi cael gwaharddiadau cyfnod sefydlog neu wedi'u gwahardd yn barhaol o'r ysgol. Mae'r bobl ifanc hyn yn gorfod aros am gyfnod hir am leoliad amgen. Er enghraifft, dywedodd un TTI bod y cyfnod hir hwn o aros wedi arwain at nifer o bobl

[6] Prosiect cynnal diddordeb pobl ifanc. Crynodeb gweithredol yr arfarniad interim o arfer dda wrth ddatblygu gallu ailgynnwys ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Blwyddyn 2 Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencitd 2005

[7] Troseddwyr ifanc cyson: astudiaeth ôl-weithredol Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2005

ifanc yn cael eu 'colli' yn y symudiad rhwng ysgol brif ffrwd, yr uned cyfeirio disgyblion a'r rhaglenni cwricwlwm amgen.

32 Mae gan rhan fwyaf y bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid anawsterau personol difrifol sy'n cael effaith negyddol ar eu dysgu. Mae angen cymorth ychwanegol ar y rhan fwyaf ohonynt cyn y gallant fynychu'n rheolaidd a chyflawni mewn dysgu ffurfiol. Gall y cymorth y mae arnynt ei angen gynnwys:

- cyfnodau amser amrywiol mewn rhaglenni cwricwlwm amgen;
- amser allan o ysgol brif ffrwd lle cymerant ran mewn gweithgareddau cymhellol neu lle cânt gymorth gydag agweddau penodol ar ddysgu; neu
- gymorth personol a chymorth dysgu gan weithiwr arbenigol yn yr ysgol, coleg neu amgylchedd hyfforddi.

33 Mae ystod ac argaeledd y cymorth hwn yn amrywio ar draws ardaloedd Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru, ond mae'n gwella'n gyffredinol ar gyfer y rheini o oed ysgol statudol.

Anghenion penodol merched ifanc sy'n troseddu

34 Mae merched ifanc yn troseddu'n llai aml, ond lle cânt eu dyfarnu'n euog, gwneir hynny am droseddau difrifol yn aml. Adroddodd un TTI am gynnydd mawr yn niferoedd y merched ifanc sydd wedi troseddu yn y chwe mis diwethaf. Mae rhan fwyaf y bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yn ddynion, felly mae merched ifanc yn y system ar eu pennau'u hunain. Yn aml, maent yn fwy aeddfed na dynion ifanc. Canfu adroddiad diweddar gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid [8] bod merched ifanc wedi bod yn ddioddefwyr cam-drin rhywiol yn aml. Maent yn dioddef o ddiffyg hunan-barch hefyd, ac mae ganddynt duedd i hunan-niweidio. Mae hyn yn gwneud eu lleoli'n anoddach. Tynnodd pob un o'r ymatebion i'n harolwg sylw at anghenion cymhleth merched ifanc. Nid oes digon o ddarpariaeth briodol ar gyfer merched ifanc sy'n gallu bodloni'u hanghenion ymddygiad ac iechyd, tra'n darparu addysg a hyfforddiant ar yr un pryd.

[8] Troseddwyr Ifanc Cyson: astudiaeth ôl-weithredol

Pa mor dda mae'r bobl ifanc hyn yn cael eu hasesu

Asesiad priodol o anghenion addysgol pobl ifanc

35 Dylai TTIau ddefnyddio ffurflenni ASSET i asesu anghenion y person ifanc ar ddechrau ac ar ddiwedd pob ymyriad. Mae ASSET yn edrych ar yr holl ffactorau diogelu a risg sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol. Rhoddir sgôr i bob adran, ac felly gellir mesur newidiadau. Fodd bynnag, nid yw ffurflenni ASSET yn cael eu llenwi'n ddigon trylwyr yn aml gan bob aelod o staff TTI. Hefyd, ni chânt eu hadolygu'n gyson o hyd. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n gyson fel modd effeithiol o fesur cynnydd addysgol pobl ifanc. Mae ansawdd y ffurflenni ASSET y mae gweithwyr TTI yr ystâd ddiogel yn eu cael gan dimau troseddau ieuenctid yn rhy amrywiol. Nid ydynt bob amser yn cynnwys digon o wybodaeth am gefndir addysgol y person ifanc. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i gynllunio gwaith sydd ar y lefel iawn.

36 Nid yw'r ffurflen ASSET yn rhoi digon o wybodaeth am gefndir neu anghenion addysgol pobl ifanc. Felly, mae rhai gweithwyr addysg TTI wedi dyfeisio'u ffurflenni'u hunain i gasglu gwybodaeth o ysgolion a chan ddarparwyr eraill. Er enghraifft, mae gan TTI Sir Benfro ffurflen asesiad cychwynnol/cynllun dysgu unigol a roddwyd at ei gilydd gan weithiwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y TTI. Mae'r ffurflen hon yn cofnodi proses gyfeirio addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y TTI. Er mwyn deall anghenion addysg a hyfforddiant pobl ifanc, mae gweithiwr addysg TTI Conwy/Sir Ddinbych yn cysylltu ag ysgolion yr holl bobl ifanc i ofyn am y wybodaeth berthnasol, ac mae'n ymweld ag ysgolion yn gyson i drafod anghenion pobl ifanc. Hefyd, mae gan y gweithiwr hwn wahoddiad agored i gyfarfodydd safoni'r gwasanaeth cymorth ymddygiad a gynhelir bob pythefnos i drafod achosion unigol er mwyn diweddaru'r swyddogion addysg am achosion sy'n gysylltiedig â'r TTI. Caiff gwybodaeth werthfawr am waharddiadau, datganiadau a CAUau eu rhannu yn y cyfarfodydd safoni hyn.

37 Mae TTIau yn cael anawsterau ar brydiau o ran cael canlyniadau asesiadau pobl ifanc o ysgolion a phrosiectau sy'n gweithio gyda'r person ifanc. Y rheswm am hyn yn aml yw nad yw staff yn deall gweithdrefnau diogelu data a'r modd i drosglwyddo gwybodaeth i weithwyr proffesiynol eraill.

Yr asesiad a'r cymorth ar gyfer bodloni anghenion medrau sylfaenol pobl ifanc

38 Nid yw TTIau yn gofalu o hyd bod anghenion medrau sylfaenol pobl ifanc yn cael eu hasesu a'u cyflwyno'n briodol. Y rheswm am hyn, yn gyffredinol, yw nad yw AALlau yn darparu cymorth penodol i TTIau ar gyfer y gwaith hwn, ac nid ydynt ychwaith yn cynnig hyfforddiant i weithwyr addysg TTI er mwyn iddynt allu cynnal yr asesiadau.

39 Mae TTIau yn dibynnu ar yr asesiadau a wneir gan ysgolion neu'r lleoliadau cwricwlwm amgen lle mae'r bobl ifanc wedi'u cofrestru. Lle mae pobl ifanc yn barod i fynychu'u lleoliad addysgol, mae hyn yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae TTIau yn goruchwylio pobl ifanc eraill sy'n disgwyl am leoliadau neu sy'n gwrthod mynychu. Gall TTIau gyfeirio'r bobl ifanc hyn ar gyfer asesiad statudol. Mae hon yn broses hir

fodd bynnag. Pan gaiff pobl ifanc eu hasesu a bod angen darpariaeth medrau sylfaenol arnynt, mae llawer ohonynt wedi ymddieithrio gormod, ac nid yw'r hyder angenrheidiol ganddynt i fynychu'r grŵp medrau sylfaenol.

40 Ar hyn o bryd, nid yw TTIau yn gwneud defnydd o broses sgrinio gynhwysfawr, ac eithrio ASSET, i wneud asesiad o anghenion medrau sylfaenol. Mae TTIau yn mynd i'r afael â'r angen hwn am asesiad a darpariaeth ar gyfer medrau sylfaenol trwy:

- gyfeirio pobl ifanc dros 16 oed at Gyrfa Cymru a Phorth Ieuenctid;
- cyfeirio pobl ifanc ar CA4 i leoedd sicr ar gyrsiau medrau sylfaenol;
- gwneud defnydd o asesiad gan seicolegydd addysg;
- trefnu hyfforddiant medrau sylfaenol ychwanegol gan ddarparwr dysgu yn y gwaith; ac
- asesu'n fewnol.

41 Fodd bynnag, golyga diffyg proses sgrinio systematig ar gyfer pob person ifanc na all TTIau fod yn sicr bod bob person ifanc yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen.

42 Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn bwriadu hyfforddi staff TTI i ddefnyddio offer ac adnoddau asesu medrau sylfaenol y strategaeth PLUS. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn wedi'i oedi gan benodiad hwy cydlynydd ar gyfer Cymru. Mae'r cydlynydd hwn yn ei swydd bellach, ac mae wedi cychwyn cyfres o gyfarfodydd i roi hyfforddiant ar waith gyda staff TTI ar hyd a lled Cymru.

Y safonau y mae pobl ifanc yn eu cyflawni

43 Pan fydd pobl ifanc sydd wedi troseddu yn cael darpariaeth addysgol briodol, cymerant gamau arwyddocaol i ailgydio yn eu dysgu a datblygant fedrau personol ac ymarferol pwysig. Er enghraifft, mae un dyn ifanc yn mynychu'r ganolfan cymorth dysgu yn ei goleg lleol, ac mae'n gwella'u fedrau allweddol. Mae un arall yn defnyddio'i fedrau TG newydd i wneud cardiau busnes a chardiau Nadolig ar gyfer ei deulu. Mae dyn ifanc sy'n dilyn cwrs Ymddiriedolaeth y Tywysog yn dysgu am hylendid bwyd. Mae rhai eraill yn dysgu medrau a chrefftau fel gwaith coed, atgyweirio nwyddau trydanol, prosesau ailgylchu a'r modd i ofalu am dda byw. Mae'r bobl ifanc yn gwneud y cynnydd gorau fel arfer pan fyddant yn gysylltiedig â gweithgareddau ymarferol. Maent yn frwdfrydig yn aml gan eu bod yn gweld pwynt i'r hyn maent yn ei wneud, ac yn gweld defnydd ymarferol i'w dysgu. Mae staff yn gwneud defnydd da iawn o weithgareddau ymarferol i ddatblygu'r medrau personol ac allweddol hanfodol nad oes gan y bobl ifanc yn aml, naill ai oherwydd amgylchiadau personol neu oherwydd cyfnodau hir o absenoldeb o'r ysgol. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn dysgu sut i:

- weithio'n well gydag eraill;
- cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain;
- cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain a'u cyfoedion;
- rheoli eu hymddygiad ac ymdopi â'u dicter;
- ymateb yn fwy cadarnhaol i awdurdod;
- derbyn canmoliaeth a beirniadaeth er mwyn symud ymlaen; a
- chynyddu'u hunan-barch ac ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

44 Mae rhan fwyaf y bobl ifanc yn ennill amrywiaeth o gymwysterau priodol ar gyfer eu gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys ASDAN, Rhwydwaith y Coleg Agored, AQAs, City and Guilds a Gwobr Dug Caeredin. Fodd bynnag, nid oes digon o'r bobl ifanc o oed ysgol statudol sydd wedi troseddu yn cael yr un cyfleoedd i ennill cymwysterau TGAU â'r rheiny nad ydynt wedi troseddu,. Mae'r bobl ifanc sy'n gweithio mewn prosiectau arbennig mewn colegau a chwmnïau dysgu yn y gwaith yn ennill CGCau a chymwysterau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae nifer fach o bobl ifanc yn symud ymlaen i lefelau dysgu uwch neu i addysg y brif ffrwd. Fodd bynnag, mae'r rheiny sy'n tynnu at 16 oed a'r rheiny rhwng 16 ac 19 oed yn llai tebygol o ailgydio mewn addysg a hyfforddiant ffurfiol.

45 Pan fydd pobl ifanc yn ennill cymwysterau cydnabyddedig a/neu'n gwella'u hymddygiad, eu hyder a'u hunan-barch, maent yn fwy tebygol o leihau eu troseddu, cael swydd a'i chadw. Fodd bynnag, er bod darparwyr yn monitro canlyniadau ar gyfer yr unigolion sy'n mynychu'u darpariaeth, nid yw'r wybodaeth a geir yn cael ei chasglu a'i dadansoddi i ganfod pa mor dda y mae pobl ifanc sy'n troseddu yn gwneud fel grŵp. Y rheswm am hyn yn rhannol yw natur tymor byr y cyswllt a gaiff

pobl ifanc â'r Tim Troseddau Ieuenctid, ac yn rhannol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ddim yn ei gwneud yn ofynnol i TTIau gasglu'r wybodaeth hon. Hefyd, nid yw'r safonau ar gyfer arolygiadau TTI yn cynnwys cwestiynau ar ansawdd yr addysg a'r canlyniadau addysgol ar gyfer pobl ifanc, sy'n aros yn y gymuned, neu'n dychwelyd i'r gymuned, o dan oruchwyliaeth y TTI.

Pa mor dda mae pobl ifanc yn cael mynediad i'w hawl i addysg a hyfforddiant

Mynediad i 25 awr o addysg neu weithgarwch dan oruchwyliaeth bob wythnos

46 Mae staff TTI yn disgwyl i bob person ifanc fynychu addysg a hyfforddiant yn gyson ac i gyrraedd yn brydlon. Gwnant ddefnydd da o ystod o gymorth i bobl ifanc i'w helpu i fynychu'n gyson. Mae hyn yn cynnwys mynediad at swyddogion y gwasanaeth lles addysg a gweithwyr ieuenctid sy'n cysylltu â rhiant/gofalwr y person ifanc i ddarparu cymorth gartref.

47 Er gwaetha'r gwaith a wna TTIau i annog pobl ifanc i fynychu a'r cymorth y mae TTIau yn eu cynnig, mae prinder o hyd o ran lleoliadau addysg prif ffrwd a lleoliadau amgen addas i bobl ifanc o oed ysgol statudol sydd wedi bod mewn trafferth â'r gyfraith. Mae'r anweithgarwch hwn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd pobl ifanc yn aildroseddu. Nid yw rhan fwyaf yr AALlau yn cyflawni'u dyletswydd statudol o hyd i ddarparu 25 awr o addysg neu weithgarwch dan oruchwyliaeth bob wythnos i bobl ifanc sydd wedi'u gwahardd. Golyga'r diffyg darpariaeth hwn na ellir lleoli llawer o bobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth y TTIau yn syth wedi iddynt gael eu gwahardd. Hefyd, pan gânt eu lleoli, nid yw eu hamser yn cael ei lenwi'n bwrpasol gydol yr wythnos. Er enghraifft, mewn un AALl, mae pobl ifanc yn mynychu'u darpariaeth amgen am bedwar diwrnod yr wythnos yn unig. Mae oriau cyfyngedig yn ei gwneud yn anodd i bobl ifanc ddatblygu'r rheolweithiau y mae arnynt eu hangen i gael swydd a'i chadw. Dywedodd rhai AALlau ei bod yn ddyhead ganddynt i ddarparu darpariaeth addysg amser llawn i bob person ifanc, gan gynnwys y rheiny sydd o dan oruchwyliaeth TTI, a nododd ymateb un AALl nad yw llai na 25 awr o addysg yn dderbyniol i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd pob un o ymatebion yr AALlau yn cydnabod nad yw bob person ifanc o oed ysgol statudol, sydd dan oruchwyliaeth y TTI, yn cael yr oriau o addysg a argymhellir. Rhoddodd AALlau nifer o resymau am y ddarpariaeth gyfyngedig hon. Roedd y rhain yn cynnwys:

- mae gan bobl ifanc sy'n troseddu ystod o anawsterau ymddygiad ac anghenion dysgu eraill yn aml, sy'n ei gwneud yn anodd i gysylltu amser llawn mewn lleoliad prif ffrwd. Mae llawer nad ydynt yn mynychu'r ysgol, a gallant ymddieithrio'n ddifrifol;

- mae pobl ifanc yn dewis peidio â mynychu'r ddarpariaeth amser llawn a gynigir;

- y cyfraddau gwahardd uchel yn yr awdurdod;

- mae'n bosibl mai â llai na 25 awr y gall pobl ifanc ymdopi â hwy yn y lle cyntaf;

- y gallu cyfyngedig yn yr unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a lleoliadau amgen eraill;

- efallai y bydd pobl ifanc, sydd o dan oruchwyliaeth y TTI, yn dewis peidio â datgelu eu cysylltiad â TTI i'r AALlau; ac

- mae'r ddarpariaeth amgen yn rhan-amser yn unig oherwydd yr adnoddau sydd ar gael.

48 Mae angen cynllun gofalus ar bobl ifanc weithiau i gynyddu'u horiau addysg yn raddol, gan fod llawer wedi bod allan o addysg am amser hir iawn. Fodd bynnag, gallai'r AALlau fynd i'r afael â nifer o'r rhesymau a roddwyd am y ddarpariaeth gyfyngedig. Mae rhan fwyaf yr AALlau yn ymwybodol o fylchau yn y ddarpariaeth i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, a'r angen i gynyddu oriau addysg. Fodd bynnag, nid yw pob un ohonynt yn cysylltu'r angen hwn â thargedau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Nid yw rhai AALlau yn ymwybodol o dargedau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer cyfranogiad mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae llawer o AALlau yn datgan eu bwriad i gynyddu darpariaeth fel UCDau, prosiectau cwricwlwm amgen a phecynnau addysg unigol. Fodd bynnag, mae cynnydd yn y gwaith hwn yn rhy araf.

49 Gofynnwyd i AALlau beth sy'n digwydd i'r cyllid a gaiff ysgolion ar gyfer pobl ifanc unigol pan fynychant raglenni cwricwlwm amgen amser llawn heb fod yn yr ysgol, neu pan gânt eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol. Dywedodd pob un o'r AALlau a ymatebodd y byddai'r cyllid yn dilyn yr unigolyn pe bai'n cael ei wahardd/gwahardd yn barhaol. Mae hwn yn llwybr ariannu priodol. Fodd bynnag, dywedodd un AALl nad oedd cyllid yn dilyn unigolion pan oeddent yn mynychu lleoliadau cwricwlwm amgen amser llawn. Ar brydiau, pan na fydd person ifanc o dan 16 oed yn mynychu'r ysgol ac yn gofyn am gael mynd at ddarparwr amgen, ni fydd yr ysgol yn rhyddhau cyllid. Gall hyn wedyn arwain at y person ifanc yn peidio â chael unrhyw addysg na hyfforddiant.

50 Rhoddodd ymron i bob un o'r tri ar ddeg TTI a ymatebodd enghreifftiau o bobl ifanc o oed ysgol statudol nad oeddent yn cael addysg amser llawn. Mae'r rhesymau a roddodd TTIau am hyn naill ai'n faterion i bobl ifanc neu AALlau ac ysgolion. Roedd materion i bobl ifanc yn cynnwys:

- mae anghenion cymdeithasol neu emosiynol penodol pobl ifanc yn ei gwneud yn anodd iddynt gyflawni;
- mae rhai pobl ifanc nad ydynt yn gallu/yn amharod i gymryd rhan mewn addysg amser llawn; a
- llai o oriau yw'r cyfan y gall pobl ifanc ymdopi â nhw.

51 Roedd materion i ysgolion ac AALlau yn cynnwys:

- y cyfnod amser rhy hir a gymerir i leoli pobl ifanc sydd wedi'u gwahardd mewn ysgol arall neu ar raglen cwricwlwm amgen;
- nid yw ysgolion yn awyddus i gynnig lleoedd i'r bobl ifanc hyn oherwydd y pwysau ar ysgolion i gyflawni canlyniadau arholiadau da;
- cyfraddau gwahardd uchel;

- mewn nifer fach o achosion, mae ysgolion wedi gwrthod rhyddhau cyllid i bobl ifanc sydd wedi rhoi'r gorau i fynychu ac sydd eisiau lleoliad amgen;

- rhan-amser yn unig yw lleoliadau a gynigir gan yr AALl;

- mae'r AALl wedi gorwario ei gyllideb flynyddol ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA), ac mae hyn yn cael effaith ar leoliadau addysg amser llawn addas i blant ag AAA;

- mae polisi'r AALl yn mynd yn groes i'w rhwymedigaethau. Pump neu 10 awr yr wythnos yn unig o hyfforddiant yn y cartref y mae rhai ohonynt yn cynnig i bobl ifanc sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol; ac yn yr un modd

- nid yw polisi'r AALl yn bodloni'r gofyniad i ddarparu 25 awr yr wythnos i ddisgyblion yn CA4.

52 Mae gormod o bobl ifanc o oed ysgol statudol sy'n troseddu ond nad ydynt yn manteisio ar eu hawl i addysg. Nid yw AALlau ac ysgolion yn cyflawni'u cyfrifoldebau i'r bobl ifanc hyn. Nid yw llawer o'r rhesymau a roddwyd am y ddarpariaeth gyfyngedig yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn parhau'n destun pryder.

Ystod y cyfleoedd cwricwlwm i bobl ifanc

53 Mae ystod y cyfleoedd cwricwlwm i bobl ifanc yng Nghymru ac o Gymru yn y system cyfiawnder ieuenctid yn rhy gul. Yn gyffredinol, nid oes digon o gyfleoedd ar gyfer:

- rhaglenni cwricwlwm amgen;
- darpariaeth amser llawn yn CA4;
- dysgu Cymraeg a dysgu am Y Cwricwlwm Cymreig, ac
- addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol, ac addysg medrau sylfaenol.

Addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol

54 Mae pobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth y TTIau yn agored i niwed ac mewn perygl yn aml. Mae ganddynt fynediad da i gyngor penodol ar gamddefnyddio sylweddau ac alcohol a materion iechyd pe bai ei angen arnynt. Fodd bynnag, nid oes digon o fynediad i gwricwlwm addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol (ABICh) eang gan gynnwys gwaith ar fwlio, trais yn y cartref, hiliaeth, dinasyddiaeth ac addysg rhyw. Mae pobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth TTIau mewn lleoliadau'r ystâd ddiogel yn cael sesiynau priodol ar y materion hyn. Nid felly y mae pan fyddant yn mynd yn ôl i'r gymuned neu'n aros yn y gymuned. Nid yw bob person ifanc sydd o dan oruchwyliaeth gan TTIau yn y gymuned yn cael cwricwlwm ABICh ehangach priodol, yn enwedig y rheiny sy'n mynychu rhaglenni cwricwlwm amgen. Golyga hyn nad ydynt yn cael y cyfle i ddatblygu dealltwriaeth o faterion sy'n cefnogi'u datblygiad fel dinasyddion cyfrifol.

55 Mae rhai TTIau yn rhoi cymorth gwerthfawr i'r cwricwlwm ABICh mewn ysgolion, fel cyfrannu at y rhaglen 'the crime of your life'. Mae TTI Sir Benfro wedi hyfforddi ei weithwyr mewn iechyd rhyw er mwyn iddynt allu cyflwyno hyn i bobl ifanc. Mae'r canlynol yn dangos y modd y mae TTI yn cyfrannu'n llwyddiannus at wersi ABICh mewn ysgol leol.

Gweithio mewn partneriaeth i leihau troseddu

Mae tîm troseddau ieuenctid (TTI) Caerffili/Blaenau Gwent yn gweithio'n agos â swyddogion cymunedol yr heddlu, ynadon lleol, ysgolion cyfun Blaenau Gwent, carchar agored Prescoed a Choleg Glynebwy i gyflwyno 'the Crime of your Life' i bobl ifanc blwyddyn 7 yn ysgolion Blaenau Gwent. Trefnir yr achlysur hwn yn ofalus ac mae adnoddau da ar ei gyfer. Mae pobl ifanc yn chwarae rhan lawn yn y digwyddiad ac yn ei fwynhau. Gofynnant gwestiynau craff a chânt ddealltwriaeth dda iawn o gost bersonol troseddu.

Mae pobl ifanc yn gwylio DVD sy'n dangos y modd y mae dyn ifanc yn cael dedfryd o gaethiwed a'r pwyntiau ysgogi ar hyd y ffordd lle gallai fod wedi newid cwrs y digwyddiadau. Mae pobl ifanc yn trafod y modd y gallai fod wedi osgoi ei ddedfryd o

garchar. Yna, mynychant weithdai sydd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n eu helpu i ddeall canlyniadau troseddu a'r effaith negyddol ar y troseddwr a'r dioddefwr. Mae'r gweithdai hyn yn cynnwys cyflwyniad grymus gan swyddog carchar a charcharor. Mae'n dweud y stori go iawn am garchar, yr unigrwydd, bwlio a cholli teulu, ffrindiau a chyfleoedd. Mae ynadon lleol a myfyrwyr drama o Goleg Gwent yn actio golygfa ystafell y llys, ac mae pobl ifanc yn cael cyfle i benderfynu ar y ddedfryd, dweud pam y dewiswyd y ddedfryd honno ganddynt, a gofyn cwestiynau i ynadon. Mae tri gweithiwr TTI, swyddog yr heddlu, nyrs practis cymunedol a gweithiwr o Drugaid, yn trafod achosion troseddu gyda'r bobl ifanc. Esboniant y modd y mae eu tîm aml-ddisgyblaethol yn cynorthwyo pobl ifanc sy'n troseddu, a'u dioddefwyr yn ogystal. Mae heddwas cymunedol yn esbonio proses y Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, ac mae pobl ifanc yn cael cyfleoedd da i ofyn cwestiynau. Mae athrawon yn dilyn ymlaen â'r gwaith hwn yn ystod gwersi ABICh. Mae'r gwaith hwn yn rhoi dealltwriaeth dda i bobl ifanc o effaith a chanlyniadau troseddu.

Gwaith penodol i gynorthwyo twf hunan-barch

56 Mae TTIau yn defnyddio ystod dda o weithgareddau i annog twf hunan-barch pobl ifanc. Mae enghreifftiau o arfer effeithiol arbennig yn cynnwys defnyddio 'Teen talk', sef pecyn parod i helpu pobl ifanc i ddeall eu teimladau a'u hymddygiad, a'r modd y maent wedi dylanwadu ar eu troseddu. Mae TTI Sir Benfro yn cysylltu ag Ymddiriedolaeth y Tywysog, sy'n gwneud gwaith un-i-in neu waith mewn grwpiau bach yn seiliedig ar faterion. Mae TTI Pen-y-bont ar Ogwr yn gwneud defnydd da o raglen hyfforddi cymhelliant. Mae Ashfield a'r Parc yn defnyddio'r rhaglen 'making offenders rethink everything' (MORE). Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i ddatblygu deallusrwydd emosiynol pobl ifanc.

57 Mae'r prosiect cymorth personol yn y ddalfa yn gynllun peilot blwyddyn sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gwaith ieuenctid i bobl ifanc yn y ddalfa. Mae'r cynllun yn cael ei roi ar brawf yn Sir Ddinbych a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae arwyddion cynnar bod pobl ifanc yn elwa ar y cymorth un-i-un hwn.

58 Mae'r canlynol yn dangos y modd y caiff pobl ifanc gymorth i werthfawrogi'u hunain a symud ymlaen at hyfforddiant pellach.

Dysgu teimlo'n well amdanynt eu hunain er mwyn symud ymlaen at hyfforddiant pellach

Prosiect yn Sir Benfro yw 'Staying with it' ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Y nod yw cael diddordeb pobl ifanc a'u helpu i hyfforddiant neu gyflogaeth. Hefyd, mae'n helpu'r rheini sy'n cwblhau hyfforddiant ond nad ydynt yn sicr o hyd ynghylch yr hyn maent am ei wneud. Ymddiriedolaeth y Tywysog sy'n arwain, yn gweinyddu ac yn cyflwyno'r prosiect. Mae'r rhaglen yn cynnwys deg wythnos o weithgarwch y flwyddyn. Mae gweithgareddau'n cynnwys gweithgareddau awyr agored, cerddoriaeth a phrosiectau cymunedol.

Mae pobl ifanc yn dysgu medrau newydd ac yn gwella'u gallu i weithio gydag eraill. Mae hyn yn eu helpu i deimlo'n well amdanynt eu hunain. Yn aml, maent yn symud ymlaen o'r prosiect hwn at hyfforddiant pellach gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Y Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig

59 Mae TTI Ashfield a Stoke Heath yn ymwybodol o'r angen i wneud darpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig. Mae gan y ddau TTI gydlynwyr yng Nghymru a chynlluniau gweithredu i gefnogi'r datblygiad hwn. Mae cymorth priodol i staff ddysgu Cymraeg. Fodd bynnag, ni thelir digon o sylw i'r Cwricwlwm Cymreig yn uned ieuenctid Eastwood Park a'r Parc. Nid yw pobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan TTIau yn y gymuned yn cael digon o fynediad i'r Gymraeg neu'r Cwricwlwm Cymreig. Fodd bynnag, mae'r TTIau yn cynnig cymorth yn Gymraeg os gofynnir amdano. Er enghraifft, gall pobl ifanc yn TTI Conwy/Sir Dinbych gael mynediad i seicolegwyr addysgol sy'n siarad Cymraeg.

60 Nid oes digon o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc i gael gwybodaeth gan TTIau yn yr iaith sydd orau ganddynt. Amrywia'r ddarpariaeth hon o'r holl wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus yn bodloni gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg, i 50% yn unig o daflenni yn ddwyieithog. Mae'r holl TTIau yn gallu cael mynediad i gyfieithwyr lle bo angen.

Gweithgareddau hamdden i gynnal pobl ifanc nes ymlaen yn eu bywydau

61 Mae defnydd gwael o amser hamdden yn ffactor risg sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol pobl ifanc[9]. Yn gyffredinol, mae TTIau yn annog pobl ifanc i barhau neu ymgymryd â diddordebau hamdden i'w helpu i wneud y gorau o'u hamser sbâr a'u cadw allan o helbul. Nid felly y mae hi yn y TTIau hynny lle nad oes rhaglenni cyfoethogi ar gyfer pobl ifanc gyda'r nos ac ar benwythnosau. Yn aml, mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn cynlluniau gweithgareddau haf fel Splash. Mae gweithwyr ieuenctid TTI Sir Benfro yn helpu pobl ifanc i ymuno â chlybiau pêl-droed, nofio a thriathlon. Hefyd, mae'r gweithiwr AHaCh yn cyfeirio pobl ifanc ymlaen at fforymau ieuenctid, sesiynau cerdd a chelf cadlanciau'r fyddin a'r rhaglen 'staying with it'. Mae gan bobl ifanc fynediad i weithgareddau awyr agored trwy weithiwr TTI Ymddiriedolaeth y Tywysog. Mae aelodau tîm TTI yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau yng nghyfarfod wythnosol y TTI. Mae Ashfield a Stoke Heath yn cynnig gweithgareddau cyfoethogi gan gynnwys cynllun gwobrwyo Dug Caeredin ac Ymddiriedolaeth y Tywysog. Fodd bynnag, nid yw pobl ifanc yn uned ieuenctid Parc yn cael digon o fynediad i weithgareddau cyfoethogi. Nid yw Eastwood Park yn cynnig rhaglen gyfoethogi strwythuredig eto. Ar brydiau, nid yw TTIau yn gwneud digon o ddefnydd o brosiectau/gweithgareddau presennol sydd ar gael i bobl ifanc yn eu hardal leol. Mae hyn yn golygu nad yw pob person ifanc yn cael digon o gyfleoedd i gael diddordebau a fydd yn eu helpu i gadw allan o helbul. Mae'r canlynol yn dangos y modd y mae TTIau yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu diddordebau gydol oes.

[9] Gwerthusiad o'r rhaglen cynhwysiad ieuenctid, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2003

Cael hobi newydd er mwyn defnyddio amser hamdden yn dda.

Mae'r cynllun 'Get Hooked on Fishing Cymru' yn bartneriaeth rhwng Heddlu Gogledd Cymru a TTI Conwy a Sir Ddinbych, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cymdeithas Eog a Brithyll Cymru a Ffederasiwn Pysgotwyr Bras Cymru. Nod y cynllun yw lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc mewn risg i gael hobi newydd, dysgu medrau newydd a datblygu diddordeb oes. Mae'r prosiect hwn yn helpu dyn ifanc i gadw allan o helbul pan gaiff ei ryddhau o Sefydliad Troseddwyr Ifanc. Gwna gweithiwr addysg y TTI ddefnydd da o'r prosiect pysgota fel rhan o raglen addysgol wythnos lawn ar gyfer pobl ifanc. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys: dau ddiwrnod yn yr ysgol i gwblhau ei TGAU mewn Saesneg, Gwyddoniaeth a Mathemateg; dau ddiwrnod yn y coleg ar gyfer sesiynau blasu galwedigaethol; ac un diwrnod o bysgota.

Roedd y rhaglen hon ar waith pan gafodd y dyn ifanc ei ryddhau, a chychwynnodd arni'n syth. Llwyddodd y prosiect pysgota i'w gadw'n brysur a'i helpu i gadw allan o helbul yn ystod gwyliau'r ysgol. Dywed 'Rwy'n teimlo bod cymorth da iawn i mi, a bod clust yn gwrando. Rwyf wedi gwneud llawer o waith, ac wedi dysgu'r modd i ddefnyddio offer yn iawn, a bwrw yn llwyddiannus. Mae'r prosiect hwn yn wirioneddol dda.'

Dysgu sut i drwsio a chynnal a chadw beiciau.

Mae'r prosiect 'On yer bike' sy'n cael ei redeg gan TTI Sir Benfro yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc ddatblygu ddiddordeb mewn beicio a chynnal a chadw beiciau. Mae deg o bobl ifanc, bob un ohonynt o dan 16 oed, yn gweithio gyda gweithiwr ieuenctid a ariennir gan Cymorth a staff o'r TTI i drwsio hen feiciau mewn gweithdy a ddarperir gan y TTI. Caiff y beiciau eu darparu gan yr heddlu lleol. Mae pobl ifanc yn dysgu sut i wneud beiciau'n addas i'r ffordd fawr ac egwyddorion diogelwch y ffordd. Gweithiant ar y prosiect ar ôl ysgol, ac mae pob un ohonynt yn mynychu'n gyson. Gyda'i gilydd, maen nhw'n llunio cyfres o reolau ar gyfer ymddygiad yn y gweithdy. Maen nhw'n cynllunio teithiau, er enghraifft, i Lys y Fran, ac yn teithio ar feiciau.

Dywed yr holl bobl ifanc eu bod bellach yn gallu helpu pobl eraill i gadw eu beiciau mewn cyflwr da, a'u bod yn falch iawn o'u cyflawniadau.

Achrediad a hyfforddiant medrau priodol

62 Nid yw pobl ifanc o dan 16 oed a phobl ifanc allan o'r ysgol yn cael yr un cyfleoedd i ennill cymwysterau TGAU â'r rheini nad ydynt wedi troseddu. Nid ydynt yn cael mynediad o hyd i achrediad a hyfforddiant medrau addas. Nid oes digon o ddarparwyr hyfforddiant sy'n cynnig cwricwlwm amgen cyn-16 gyda hyfforddiant medrau fel rhan o'r opsiwn, mewn medrau adeiladu a medrau cerbyd modur yn benodol.

Mentrau gan TTIau i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth

63 Dywed y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid na ddylai TTIau gymryd lle darparwyr addysg a hyfforddiant hyd yn oed os oes bylchau yn y gwasanaethau hynny. Mae cyswllt agos rhwng llwyddiant ymyriadau'r TTI â pha mor dda mae'r darparwyr hyn yn darparu ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddu[10]. Roedd pob un o reolwyr TTI a ymatebodd i'n harolwg yn gwybod am bwysigrwydd pobl ifanc yn cysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth fel ffactor allweddol o ran eu cadw allan o helbul. Cydnabyddant mai eu rôl yw helpu pobl ifanc i gysylltu ag ysgolion a darparwyr eraill, ac i weithio'n strategol gyda phartneriaid, a'u cefnogi, i fynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau. Fel hyn, bydd pobl ifanc yn parhau i gysylltu â darparwyr, a chael cymorth ganddynt, pan ddaw eu cysylltiad â'r TTI i ben. Er mwyn llenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant, mae llawer o TTIau wedi cyflwyno ystod eang o fentrau i gefnogi pobl ifanc tra'u bod yn aros am leoliadau amser llawn. Mae enghreifftiau da yn cynnwys:

- cyflogi gweithiwr cymorth a thiwtor addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (AHaCh) o gyllid arbenigol i fynd i'r afael â bylchau fel rhaglen gyflogadwyedd a chymorth medrau sylfaenol;

- gweithio mewn partneriaeth â darparwr hyfforddiant i sicrhau cyllid 'y Fargen Newydd' i ddarparu lleoedd hyfforddiant i bobl ifanc sy'n hysbys i'r TTI a oedd wedi ymddieithrio o AHaCh;

- defnyddio cyllid teir-ran gan y TTI, y bartneriaeth diogelwch cymunedol a'r PPI i ariannu prosiect Grŵp Breakthrough i gynorthwyo pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio;

- cynnig y cyfle i bobl ifanc i gymryd rhan mewn cyrsiau sylfaenol cynnal a chadw cerbydau modur a datblygu cysylltiadau â chyflogwyr a cholegau i ddarparu dilyniant;

- darparu ystafelloedd ar gyfer canolfan hyfforddi AALl ar y safle i bobl ifanc sydd ag ymddygiad heriol a/neu sydd wedi'u heithrio o ddarpariaeth prif ffrwd; a

- chyflwyno rhaglen medrau bywyd i gysylltu pobl ifanc ag asiantaethau allanol.

[10] Ymateb y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'r Papur Gwyrdd 2006

Pa mor dda mae TTIau yn gweithio gydag asiantaethau eraill i ddarparu addysg a hyfforddiant priodol

64 Mae TTIau yn gwneud defnydd da iawn o ystod eang o bartneriaid yn y gymuned i gyflwyno rhaglenni ar gyfer pobl ifanc. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys:

- Gyrfa Cymru/Porth Ieuenctid;
- colegau lleol;
- cwmïau dysgu yn y gwaith;
- asiantaethau gwirfoddol fel Include ac Ymddiriedolaeth y Tywysog;
- swyddogion a grwpiau AALl;
- Gwasanaeth Ieuenctid awdurdodau lleol;
- darparwyr gwirfoddol gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- CCAHau a rhwydweithiau dysgu; a'r
- Gwasanaethau Cymdeithasol.

65 Mae rhan fwyaf y TTIau yn datblygu cysylltiadau ffurfiol â phartneriaid eraill o fewn cynlluniau cyfiawnder ieuenctid y TTI er mwyn gwella ansawdd gweithio mewn partneriaeth.

66 Mae'r canlynol yn dangos y modd y mae gweithio effeithiol mewn partneriaeth o fudd i bobl ifanc. Mae enghreifftiau pellach yn Atodiad 2.

Gweithio mewn partneriaeth i symud pobl ifanc ymlaen at hyfforddiant pellach

Mae Canolfan Hyfforddi Abertawe yn gwmni dysgu yn y gwaith, ac mae ganddo adeiladau da iawn. Mae'n cynnig lleoliadau ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed ac sydd o dan oruchwyliaeth y Tîm Troseddau Ieuenctid. Mae hwn yn darparu siop un stop, lle caiff y bobl ifanc amrywiaeth o gymorth, arweiniad, hyfforddiant, llwybrau cymwysterau a phrofiad gwaith go iawn mewn un lle. Mae'r bobl ifanc yn ffurfio perthnasoedd da gyda staff sy'n gweithredu fel modelau rôl iddynt. O fewn yr amgylchedd sefydlog a chefnogol clos hwn, mae'r bobl ifanc yn hyderus i symud ymlaen drwy'r amrywiaeth o raglenni hyfforddi sy'n cael eu cynnig neu i groesi drosodd o un rhaglen i raglen arall sy'n gweddu'n well iddynt. Gellir olrhain pobl ifanc trwy Fynediad Ieuenctid i Gamau Cyntaf i Gyswllt Swyddi, yna i raglenni hyfforddi prif ffrwd. Mae gweithio da iawn mewn partneriaeth yn sicrhau y gellir cyfeirio pobl ifanc at hyfforddiant a chymorth arall. Mae staff canolfannau hyfforddi yn mynd gyda hwy at ddarparwyr eraill yn aml. Mae llawer o bobl ifanc wedi llwyddo i ennill cymwysterau ac wedi gwella eu cyfleoedd bywyd yn sylweddol o ganlyniad i'w cysylltiad â'r cwmni.

Gweithio gydag AALlau

67 Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pennu gofyniad bod cynlluniau strategol addysg AALlau yn cyfeirio at gyfrifoldebau AALlau mewn perthynas â TTIau. Fodd bynnag, mae'r arweiniad newydd ar gyfer y cynllun addysg sengl yn ei gwneud yn ofynnol i'r AALl gynnwys gwaith y TTI. Mae rhai AALlau, gan gynnwys Sir Benfro a Bro Morgannwg, wedi paratoi'n dda ar gyfer hyn. Gwnant yn siwr bod eu cynllunio'n ystyried cyfrifoldebau'r AALlau mewn perthynas â'r TTI. Mae'r ddau awdurdod yn cysylltu'u cynllun strategol addysg â gwaith y TTI lleol. Nid yw AALl Caerffili yn cynnwys addysg pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuenctid fel maes blaenoriaeth i weithredu arno. Fodd bynnag, mae cyfraniad ariannol yr AALl at ariannu'r tîm troseddau ieuenctid yn cael ei amlinellu yn eu cynllun strategol addysg.

68 Mae rhai AALlau wedi sefydlu panelau defnyddiol cynhwysiad cymdeithasol, ymddygiad a phresenoldeb neu addysg heblaw am yn yr ysgol (EOTAS) sy'n cynnwys cynrychiolydd o'r TTI. Mae'r panelau hyn yn ystyried anghenion pobl ifanc unigol sydd mewn risg, sydd wedi'u heithrio neu sydd mewn perygl o fod felly. Mae aelodau yn cyfarfod yn gyson i ystyried pobl ifanc sy'n anodd eu lleoli, yn sefydlu cynlluniau gweithredu unigol ac yn gwneud yn siwr bod pobl ifanc yn cael addysg briodol. Gall pob aelod o'r panel gyfeirio pobl ifanc i'w hystyried, ac mae aelodau perthnasol yn cyfrannu at y cynllun gweithredu, fel bo'n briodol.

69 Mae rhan fwyaf o gynlluniau cymorth ymddygiad AALlau yn cydnabod gwerth, ac maent yn cysylltu gwaith y TTI â strategaeth yr AALl ar gyfer gwella ymddygiad. Un cam gweithredu allweddol yng nghynllun cymorth ymddygiad Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2004-2007 yw bod yr AALl a'r TTI yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni mesurau perfformiad y TTI sy'n ymwneud ag addysg pobl ifanc sy'n troseddu. Mae enghreifftiau pellach o hyn yn Atodiad 3.

70 Nid yw pob AALlau mor gysylltiedig ag y dylent fod â pharatoi a gweithredu cynlluniau cyfiawnder ieuenctid. Nid oedd rhai AALl wedi cael unrhyw gysylltiad â'r cynlluniau. Ymgynghorwyd â nifer fach o AALlau gydol y broses a chafodd y rhan fwyaf ohonynt gyfle i gynnig sylwadau ar y cynlluniau drafft. Roedd AALlau Sir Ddinbych a Chonwy yn gysylltiedig â pharatoi cynllun cyfiawnder ieuenctid y TTI. Mae'r cynllun wedi'i gysylltu'n ofalus â chynlluniau a datblygiadau gwasanaethau AALl eraill trwy rannu gwybodaeth, adolygu canlyniadau a dadansoddiad penodol o garfan. Ychydig o gyswllt a gafodd AALl Caerffili, ond roedd ganddo gynlluniau i sefydlu cytundeb partneriaeth lefel gwasanaeth rhwng y TTI a'r AALl er mwyn cryfhau trefniadau gweithio da presennol rhwng y ddwy asiantaeth a rhoi sylw i ddiffygion.

71 Nid yw staff TTIau yn cael digon o hyfforddiant mewn materion addysgol. Yn aml, mae rheolwyr yn dibynnu ar eu gweithiwr addysg i ddarparu gwybodaeth ddiweddar i staff eraill, i weithredu fel cyswllt â'r AALl, ysgolion a darparwyr hyfforddiant, a chynyddu ymwybyddiaeth uwch staff ac ymarferwyr o newidiadau statudol i arweiniad a deddfwriaeth. Nid yw rhan fwyaf yr AALlau yn rhoi hyfforddiant i staff TTI mewn materion addysgol. Fodd bynnag, roedd swyddogion AALlau a ymatebodd i'n harolwg yn barod i roi mynediad i staff TTI i hyfforddiant priodol

72 Mae rhai AALlau yn cefnogi hyfforddi staff TTI mewn materion addysgol yn dda. Er enghraifft, mae AALl Casnewydd yn ariannu gradd meistr rhan-amser gweithiwr addysg y TTI. Mae'r radd mewn anghenion addysgol arbennig oherwydd lefelau uchel anghenion pobl ifanc sy'n troseddu. Mae enghreifftiau pellach yn Atodiad 4.

Gweithio gyda phartneriaethau pobl ifanc

73 Mae rhan fwyaf y partneriaethau pobl ifanc (PPI) yn dechrau cynllunio i gynorthwyo addysg pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae'r canlynol yn dangos cynllunio strategol da ar draws gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cynllunio strategol da

Mae Cynllun Gwasanaethau Plant Dinas Casnewydd yn dweud bod y Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc yn gyfrifol am y nod strategol o leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc. Mae cysylltiad clir rhwng y nod hwn â gwella llythrennedd a rhifedd pobl ifanc, ac â'u cysylltiad ag addysg er mwyn gwella'u cyfleoedd bywyd.

74 Mae gan ran fwyaf y TTIau gysylltiad llawn â'r partneriaethau hyn. Mae dau weithiwr TTI yn cadeirio eu PPI, ac mae gan rai TTIau gysylltiad agos ag ysgrifennu cynllun y PPI. Mewn rhai achosion, mae pobl ifanc sy'n troseddu a'r rheini 'mewn risg' o droseddu yn cymryd blaenoriaeth pan ddyrennir lleoedd ar raglenni ataliol/dargyfeiriol a gynlluniwyd i leihau eithrio cymdeithasol. Felly y mae hi ym Mhowys, lle mae'r rhaglenni hyn yn cael eu hariannu gan Cymorth a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, a'u monitro gan y PPI. Hefyd, yn Abertawe, mae'r rhaglen drosiannol ffocws ieuenctid a ariennir gan Cymorth yn canolbwyntio ar y bobl ifanc hynny sy'n agored i niwed sydd mewn risg o ymddieithrio. Mae pobl ifanc, gan gynnwys y rheini yn y system cyfiawnder ieuenctid, yn cael cymorth da gyda llwybrau dysgu newydd o'r rhaglen hon.

75 Mae nifer rhy fach o gynlluniau cyfiawnder ieuenctid TTI yn cysylltu'u hamcanion a'u targedau â rhai'r PPI. Yn benodol, nid ydynt yn nodi'r modd y bydd y TTI yn gweithio gyda'r PPI i gynyddu nifer yr oriau cyswllt sydd gan bobl ifanc ag addysg a hyfforddiant amser llawn. Mae rhai eithriadau, fel TTI Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cynllun TTI Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys y cysylltiadau â'r PPI ac yn nodi pan fydd amcanion ar y cyd fel datblygu mwy o ddarpariaeth addysg amgen. Mae cynllun TTI Caerdydd yn dangos y modd y mae'n bwriadu gweithio'n agosach â'r PPI er mwyn sicrhau bod y TTI yn gallu cwrdd â'i dargedau, a sicrhau cymorth i agenda cynhwysiad yr adran addysg a dysgu gydol oes. Mae rheolwyr TTIau yn cydnabod yr angen i:

- gysylltu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid â'r cynllun PPI a chynlluniau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed er mwyn gwella darpariaeth ar gyfer y grŵp oed hwn; ac
- ymgynghori â phartneriaid am y cynllun cyfiawnder ieuenctid.

Gweithio gyda Gyrfa Cymru

76 Mae gan TTIau berthynas weithio gynhyrchiol ac agos â Gyrfa Cymru. Mae hyn o gymorth i bobl ifanc sydd dan oruchwyliaeth TTIau yn y gymuned. Mewn rhai TTIau, mae cytundeb lefel gwasanaeth yn rhoi cymorth da i'r berthynas hon. Lle mae gan TTIau weithwyr AHaCh, gweithiant yn agos â Gyrfa Cymru a Phorth Ieuenctid. Mae TTI Casnewydd yn cynnal rhaglen medrau bywyd 10 wythnos, gyda dau weithdy gyrfaoedd yn cael eu rhedeg gan Gyrfa Cymru. Mae swyddog gyrfa ôl-16 yn mynychu'r TTI yn wythnosol, ac ar gais, mae'n ymweld â phob troseddwr ifanc ôl-16 sydd yn ddalfa. Mae bob person ifanc o dan 16 oed ar raglenni cwricwlwm amgen yn cael arweiniad ar yrfa drwy addysg heblaw am yn yr ysgol (EOTAS). Mae gwaith TTI Rhondda Cynon Taf gyda Gyrfa Cymru wedi helpu pobl ifanc i symud yn esmwyth i AHaCh o'r ddalfa i'r gymuned. Mae'r gweithwyr wedi cysylltu â Connexions mewn nifer o leoliadau cadw, ac anfonir ffolderi gwaith cyn i'r person ifanc gael ei ryddhau. Hefyd, mae Swyddogion Gyrfa'n mynychu cyfarfodydd cynllunio. Os na all hyn ddigwydd oherwydd cyfyngiadau amser neu ddiffyg adnoddau, trefnir apwyntiad gyrfa cyn pen 48 awr i ryddhau. Fodd bynnag, nid yw llawer o bobl ifanc yn yr ystâd ddiogel yn cael gwasanaeth digon da gan Gyrfa Cymru. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt symud yn esmwyth yn ôl i'r gymuned, ac mae'n rhaid iddynt aros yn rhy hir am leoliadau priodol.

Gweithio gyda'r gwasanaeth ieuenctid

77 Mae Gwasanaethau Ieuenctid awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru yn darparu neu'n rheoli llawer o raglenni cwricwlwm amgen effeithiol lle mae pobl ifanc sydd wedi troseddu yn cael eu lleoli. Yn aml mae'r prosiectau hyn yn gweithio gyda'r bobl ifanc mwyaf heriol, ac mae pobl ifanc yn ennill achrediad am eu gwaith, yn gwella'u hymddygiad ac yn dangos agwedd fwy cadarnhaol at ddysgu o ganlyniad i gymryd rhan.

78 Mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn cynnig llawer o weithgareddau effeithiol eraill hefyd sy'n ennyn diddordeb pobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth TTIau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gweithgareddau ffurfiol lle mae'n rhaid i bobl ifanc fynychu gweithgareddau hamdden galw-i-mewn mynediad agored, a gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, yn wirfoddol. Er enghraifft, mae'r prosiect 'Get Active' ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda Chanolfannau Ffocws Ieuenctid Cymunedol y sir. Ei nod yw gwella iechyd a ffitrwydd pobl ifanc a darparu cymorth, cwnsela a gweithgareddau hamdden. Mae rhai pobl ifanc yn ymuno mewn gweithgareddau eraill y Gwasanaeth Ieuenctid yn eu hamser hamdden, ac yn chwarae rhan fwy cadarnhaol yn eu cymunedau.

Gweithio gyda rhieni/gofalwyr

79 Mae TTIau yn rhoi cymorth da iawn i rieni a gofalwyr fel eu bod hithau yn eu tro yn gallu cynorthwyo'u plant. Er enghraifft, cynhyrchodd TTI Trefynwy/Tor-faen lawlyfr addysg i staff. Mae'r llawlyfr hwn yn rhoi gwybodaeth sylfaenol am ddeddfwriaeth, polisi ac arfer addysgol a rolau a chyfrifoldebau staff addysg. Mae TTI Caerffili/Blaenau Gwent wedi cynhyrchu pecyn cymorth i rieni a phobl ifanc. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth werthfawr am addysg, fel beth i'w wneud os yw person ifanc yn cael ei wahardd.

Gweithio gyda'r ystâd ddiogel

80 Nid yw TTIau a'r ystâd ddiogel yn gweithio'n ddigon agos â'i gilydd i ddarparu rhyddhad wedi'i gynllunio ac ail-fynediad syth i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'r trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng gweithiwr addysg y TTI a staff addysgol y lleoliad diogel yn rhy amrywiol. Nid yw TTIau yn cael digon o wybodaeth ddefnyddiol am gyrhaeddiad na'r asesiadau sydd wedi'u cynnal o fewn yr ystâd ddiogel. Nid yw rhai TTIau yn cael cyfle i gyfarfod â staff addysgol pan fyddant yn mynychu adolygiadau mewn lleoliadau diogel. Nid yw nifer o TTIau yn cael ffeiliau bob tro pan fydd person ifanc yn cael ei ryddhau. Ar brydiau, mae'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yn hen wybodaeth. Mae hyn yn golygu nad yw'r cynllunio'n seiliedig ar wybodaeth gadarn, ac efallai y bydd pobl ifanc yn ailadrodd gwaith neu'n cael gwaith nad yw ar y lefel iawn.

81 Mae rhai TTIau wedi gwella cyfathrebu â'r ystâd ddiogel fel bod pobl ifanc yn mynd i mewn yn ddi-dor i addysg/hyfforddiant neu gyflogaeth pan gânt eu rhyddhau o'r ddalfa. Er enghraifft, mae gan TTI Casnewydd gytundeb gyda Gyrfa Cymru y byddant yn mynychu cyfarfodydd cyn-rhyddhau ar gais. Mae'r TTI yn gwneud cais bod y darparwr addysg yn y gymuned yn ymweld â phobl ifanc mewn lleoliadau diogel er mwyn gwneud neu gadw cysylltiadau â'r person ifanc. Mae enghreifftiau pellach yn Atodiad 5.

82 Mae'r canlynol yn dangos y modd y gall TTIau weithio'n agos â'r ystâd ddiogel a'r ddarpariaeth leol er mwyn gwneud yn siwr bod pobl ifanc yn trosglwyddo'n llwyddiannus o'r ddalfa i'r gymuned.

Cynllunio gofalus i helpu trosglwyddo effeithiol o'r ddalfa i'r gymuned 1

Cyfeiriodd TTI Caerffili/Blaenau Gwent ddyn ifanc at y cwrs mynediad ieuenctid yng Ngholeg Ystrad Mynach. Pan gafodd ddedfryd o gaethiwed, cysylltodd y TTI yn dda gyda Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ashfield a'r coleg. Gwnaeth staff y TTI yn siwr bod staff y coleg yn deall y risgiau a oedd ynghlwm, a'u bod yn gwybod y gallent gysylltu â'r gweithiwr TTI enwebedig pe bai anawsterau. Roedd hyn yn golygu bod y coleg yn teimlo bod cymorth ar gael iddo. Fe wnaethant gytuno i gadw lle ar agor iddo er mwyn iddo allu dechrau'r cwrs cyn gynted ag y byddai'n gadael y ddalfa.

Cynllunio gofalus i helpu trosglwyddo effeithiol o'r ddalfa i'r gymuned 2

Ymwelodd gweithiwr AHaCh TTI Sir Benfro â dyn ifanc cyn iddo gael ei ryddhau o Sefydliad Troseddwyr Ifanc yng Ngogledd Swydd Efrog. Lluniodd gynllun dysgu unigol a chysylltodd yn ofalus â'r AALl i sefydlu rhaglen i gychwyn cyn gynted ag y byddai'n cael ei ryddhau. Roedd ei gynllun yn cynnwys bore gyda Gyrfa Cymru/Porth Ieuenctid, a phrynhawn o dan oruchwyliaeth y TTI, dau brynhawn o hyfforddiant gartref, a diwrnod gyda Phrosiect Cymunedol Ymddiriedolaeth y Tywysog. Enillodd y dyn ifanc achrediad RhCA mewn medrau bywyd.

Y prif rwystrau sy'n atal pobl ifanc sy'n troseddu rhag cael addysg a hyfforddiant priodol

83 Mae gormod o rwystrau pwysig o hyd sy'n atal y bobl ifanc hyn rhag cael mynediad i addysg a hyfforddiant priodol. Fodd bynnag, mae llawer o fentrau da sy'n goresgyn y rhwystrau hyn. Hefyd, mae parodrwydd ar ran partneriaid i weithio gyda'i gilydd pan fyddant yn ymwybodol o'r materion sy'n cael effaith negyddol ar bobl ifanc sy'n troseddu.

Casglu data

84 Nid oes data'n cael ei gasglu o hyd gan y BCI na Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyrhaeddiad neu gyflawniadau unigolion neu'r grŵp o bobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth TTIau. Mae hyn yn golygu nad yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu dangos y modd y mae'r grŵp hwn wedi elwa'n addysgol o ymyriad y TTI. Heb ddata ar gyrhaeddiad a chyflawniad unigolion neu'r grŵp o bobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth TTIau, ni all AALlau osod targedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae gan AALlau systemau i olrhain presenoldeb a chyflawniad addysgol ar sail unigol. Dywedodd holl ymatebwyr yr AALlau eu bod yn gallu cael mynediad i'r wybodaeth hon am unigolion gan ysgolion, a chan leoliadau cwricwlwm amgen hefyd. Nododd un AALl nad oes gofyniad penodol i gasglu gwybodaeth am bresenoldeb neu gyrhaeddiad addysgol pobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth TTI. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon ar gael mewn ysgolion a gwasanaethau addysg cyflenwol, a gellid ei chasglu pe bai'n ofynnol. Cynigiodd un AALl i sefydlu cynllun peilot i gasglu'r wybodaeth hon.

Targedau i godi safonau

85 Nid yw pob un o gynlluniau cyfiawnder ieuenctid TTI yn cynnwys manylion penodol a thargedau ar gyfer cynyddu nifer yr oriau cyswllt sydd gan bobl ifanc ag addysg a hyfforddiant amser llawn. Maent yn canolbwyntio yn y cynlluniau ar gamau gweithredu a thargedau i gynorthwyo gallu'r TTIau i gwrdd â tharged y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, sef 90% o gyfeiriadau yn cael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn. Mae'r camau hyn yn seiliedig yn bennaf ar weithio'n agosach â phartneriaid fel yr AALl, ysgolion, gwasanaethau lles addysg a Gyrfa Cymru. Mae hyn yn ddefnyddiol, ond nid yw'n canolbwyntio digon ar gynyddu nifer yr oriau y gall pobl ifanc gael mynediad i addysg a hyfforddiant.

Anghenion penodol pobl ifanc dros 16 oed

86 Mae anghenion penodol gan bobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth TTIau. Nid oes digon o leoliadau ar gyfer pobl ifanc mewn dysgu yn y gwaith, yn enwedig yng Ngogledd Cymru ac yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r prinder lleoliadau hwn neu oedi o ran dod o hyd i leoliad yn peri i bobl ifanc golli cymhelliant. Nid oes digon o gyfleoedd i bobl ifanc ymgymryd â chyflogaeth gymorthdaledig am gyfnod penodol. Dywedodd TTIau, lle bod cyflogaeth gymorthdaledig ar gael, mae'n helpu pobl ifanc trwy roi cyfnod o gyflogaeth iddynt lle gallant ddysgu i gadw at arferion a chael geirdaon. Nid yw rheiny sydd wedi gadael yr ysgol yn ddiweddar yn cael lleoliadau

priodol o hyd gan Porth Ieuenctid. Nid yw pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni hyn yn symud ymlaen at gyflogaeth arall neu gyfleoedd hyfforddi o hyd. Mae angen cyfleoedd hyfforddi ehangach a chymorth gwell ar bobl ifanc sy'n troseddu. Nid yw ELWa, y corff cyfrifol pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, wedi gweithio'n ddigon agos â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i roi cymorth i'r bobl ifanc hyn. Mae gan bobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth TTIau y fath anawsterau, ac maent wedi ymddieithrio i'r fath raddau, bod angen llawer o gymorth ac amser paratoi arnynt i fod yn llwyddiannus mewn lleoliad gwaith. Dywedodd TTIau nad yw pobl ifanc mewn dysgu yn y gwaith yn cael digon o gymorth gyda medrau sylfaenol bob tro. Nid yw datblygu medrau sylfaenol wedi'i integreiddio'n llawn o hyd i ddysgu galwedigaethol pobl ifanc.

Y defnydd cyfyngedig o gynlluniau dysgu unigol

87 Mae'r defnydd o gynlluniau dysgu unigol (CDU) ar gyfer pobl ifanc ar draws y system cyfiawnder ieuenctid yn rhy gyfyngedig, ac nid yw TTIau yn sicr o'r modd i'w defnyddio. Pan fydd TTIau yn cael gwybodaeth am gyflawniad pobl ifanc gan yr ystâd ddiogel, nid yw ar ffurf cynllun dysgu unigol o hyd. Nid yw TTIau a darparwyr yn glir ynghylch y modd i sefydlu cynllun dysgu unigol priodol. Yn aml, mae'r bobl ifanc hyn yn cael eu lleoli gyda mwy nag un darparwr. Gwrthodant ymgysylltu â'r darparwr yn aml, a symudant lawer o weithiau. Mae hyn yn golygu bod dryswch ynghylch pa sefydliad ddylai gadw eu cynlluniau dysgu unigol. Mae TTIau yn ansicr hefyd ynghylch beth sy'n digwydd i'r CDU pan ddaw eu cysylltiad i ben.

Yr anhawster o gael mynediad i wybodaeth, a chofnodi gwybodaeth am anghenion addysgol ychwanegol pobl ifanc

88 Os oes gan berson ifanc ddatganiad AAA, caiff y datganiad ei atal tra fod y person ifanc yn y ddalfa. Mae'r swyddog TTI yn hysbysu'r AALl a'r adran AAA am ddyddiad rhyddhau'r person ifanc, a chaiff y datganiad ei adfer pan gaiff ei ryddhau. Fodd bynnag, nid oes gan bob person ifanc gynllun addysg unigol (CAU) diweddar, ac nid yw cynnydd pobl ifanc yn cael ei adolygu'n flynyddol bob tro. Mae TTIau yn ei chael hi'n anodd hefyd i gael copïau o CAUau ar gyfer pobl ifanc â datganiadau o anghenion addysgol arbennig o ysgolion. Nid yw rhan fwyaf y datganiadau a'r CAUau yn gysylltiedig â chynlluniau dysgu unigol person ifanc. Nid yw gweithwyr TTI yn deall digon am y cynlluniau hyn. Mae TTI RCT wedi trefnu cyfarfodydd misol gyda'r AALl i ddiweddaru'r cytundeb lefel gwasanaeth. O fewn y cytundeb hwn, mae gofyniad ar i bob person ifanc sydd o dan oruchwyliaeth y TTI i gael CAU sy'n datgan ei anghenion a'i ofynion unigol yn glir. Mae darparwyr hyfforddiant yn RCT eisoes yn cwblhau CAUau ar gyfer pobl ifanc, ac mae gan weithwyr ôl-16 y TTI gynllun ar waith hefyd. Pan fydd person ifanc yn mynychu darparwr hyfforddiant lleol, mae ei wybodaeth AHaCh yn cael ei hanfon ymlaen.

Y cyngor cyfyngedig ar yrfaoedd i bobl ifanc yn yr ystâd ddiogel

89 Mae rhan fwyaf y bobl ifanc yn y gymuned yn cael cymorth ac arweiniad priodol gan gynghorwyr gyrfa. Fodd bynnag, nid felly y mae bob tro i bobl ifanc yn y ddalfa. Er enghraifft, nid oes cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Parc a Gyrfa Cymru ar gyfer cyngor ac arweiniad i bobl ifanc. Mae nifer o TTIau yn pryderu ynghylch y cyswllt uniongyrchol cyfyngedig rhwng arbenigwr AhaCh y TTI ac arbenigwyr gyrfa mewn lleoliadau diogel. Pan gaiff pobl ifanc o Gymru eu rhoi yn y ddalfa yn Lloegr, maent

yn darparu gwasanaeth gwael. Cânt wasanaeth gan Connexions. Fodd bynnag, nid yw Connexions a Gyrfa Cymru yn gweithio'n dda gyda'i gilydd bob tro. Gall hyn arwain at ddiffyg gwybodaeth pan gaiff person ifanc ei ryddhau. Mae'n rhaid i'r person ifanc gyfarfod â chyngorwyr Gyrfa Cymru pan fydd yn dychwelyd adref, er mwyn iddo gael ei ardystio ar gyfer lleoliad hyfforddi. Nid yw pobl ifanc yn cadw at eu hapwyntiadau bob tro.

Atodiadau

Atodiad 1: Yr oriau o addysg a hyfforddiant a gaiff pobl ifanc

Cyfanswm nifer y bobl ifanc yr oedd 13 allan o 18 TTIau yn eu goruchwylio, ac y darparwyd ar eu cyfer ddydd Mawrth 13 Medi 2005					**Cyfanswm: 1747 Cyfanswm bechgyn: 1468 Cyfanswm merched: 279**	
Oed/rhyw pobl ifanc	10-14		14-16		16-19	
	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched
25 awr	**120**	**19**	**324**	**91**	**473**	**69**
10-20 awr	**18**	**2**	**30**	**6**	**25**	**8**
llai na 10 awr	**3**	**1**	**18**	**4**	**4**	**1**
dim addysg/ hyfforddiant	**7**	**1**	**81**	**16**	**365**	**61**

Roedd llai na dwy ran o dair (63%) o'r holl bobl ifanc y mae'r TTIau hyn yn eu goruchwylio yn y gymuned yn cael y 25 awr a argymhellir.

Nid oedd ymron i draean (30%) yn cael unrhyw addysg neu hyfforddiant.

Nid oedd ymron i hanner yr holl ferched ifanc a'r dynion ifanc rhwng 16-19 oed yn cael unrhyw addysg neu hyfforddiant.

Ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng niferoedd y merched ifanc a'r dynion ifanc nad oeddent yn cael addysg neu hyfforddiant.

Atodiad 2: Gweithio effeithiol mewn partneriaeth rhwng TTIau a darparwyr

Gweithio'n llwyddiannus gyda darparwyr lleol i wella cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc

Mae gweithiwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth TTI Sir Benfro yn cysylltu'n ofalus â Choleg Sir Benfro, ac mae wedi rhoi protocol ar waith rhwng y TTI a'r coleg. Mae'r TTI wedi newid y modd y mae'r coleg yn ystyried y bobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio gan y TTI. Mae'r TTI wedi dweud yn glir na fydd yn cyfeirio pobl ifanc nad ydynt yn barod ar gyfer amgylchedd y coleg. Lluniodd y ddwy asiantaeth brotocol, a'i arwyddo, ym mis Awst 2005 i atgyfnerthu'r broses.

Mae'r berthynas weithio dda hon wedi golygu bod pobl ifanc nad oeddent wedi cyflawni rhyw lawer yn flaenorol, wedi cwblhau neu wrthi'n cwblhau cyrsiau fel adeiladu, drama a pharatoi ar gyfer y fyddin yn llwyddiannus.

Gweithio mewn partneriaeth i wella'r ddarpariaeth i bobl ifanc sy'n anodd eu lleoli

Mae TTI Sir Benfro yn gweithio'n agos gydag uned hirdymor cyfnod allweddol 4 yr AALl er mwyn darparu gweithgareddau pwrpasol ar gyfer y bobl ifanc sydd fwyaf anodd i'w lleoli. Y TTI sy'n darparu'r gweithdy, a dau aelod o staff i helpu goruchwylio'r sesiynau. Mae pobl ifanc yn treulio tri bore'r wythnos ar brosiectau gwaith coed a gwaith mAHaChl. Mae'r gweithio hwn ar y cyd wedi arwain at brosiect arall lle mae'r TTI a staff y gwasanaeth cymorth ymddygiad yn datblygu medrau arlwyo pobl ifanc. Mae'r gwaith hwn yn ailgyflwyno pobl ifanc i ddysgu a chadw at arferion. Mae hyn yn golygu eu bod yn fwy tebygol o aros mewn lleoliad pan gânt un.

Gweithio mewn partneriaeth i ddargyfeirio pobl ifanc o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu

Mae Positive Futures yn fenter gan lywodraeth y DU i ddargyfeirio pobl ifanc o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu, a'u hannog i fod yn gysylltiedig â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant trwy raglenni cynhwysiad cymdeithasol sy'n seiliedig ar chwaraeon. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid, y Gwasanaethau Hamdden a'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden i bobl ifanc rhwng 10 ac 19 oed sydd ar y cyrion yn gymdeithasol, mewn tair cymuned leol. Mae cynnydd y prosiect a chynnydd y bobl ifanc yn cael eu monitro'n ofalus.

Yn 2005, roedd 10 allan o 13 o bobl ifanc yn gweithio tuag at ddyfarniad chwaraeon a ffitrwydd ASDAN, cafodd dau eu hintegreiddio i'r ysgol, ac roedd un wedi symud ymlaen at gwrs mecaneg yng Nghwmni Hyfforddi XR.

Gweithio gyda'r sector gwirfoddol i ehangu cyfleoedd i bobl ifanc

Mae Fferm Ymddiriedolaeth Amelia yn sefydliad gwirfoddol sy'n darparu amrywiaeth o brofiadau ymarferol, cymhellol ac addysgol i bobl ifanc dan anfantais. Mae pobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth nifer o TTIau yn ardal De Cymru, gan gynnwys Bro Morgannwg, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr yn mynychu'r fferm. Cymerant ran mewn gweithgareddau cwricwlwm amgen, crochenwaith, gwaith coed, medrau awyr agored ymarferol, gweithgareddau awyr agored heriol a gofal anifeiliaid. Mae'r bobl ifanc yn cael cymorth da gan y staff addysgu a'r staff cymorth. Gall pobl ifanc gael mynediad i amrywiaeth o achrediadau am eu gwaith o nifer o brosiectau sydd ar gael ar y safle.

Fe wnaeth grŵp o bobl ifanc o flynyddoedd 10 ac 11, nad ydynt yn mynychu'r ysgol ym Mro Morgannwg, wrando'n dda a chymryd rhan mewn gwers TGAU ar Romeo a Juliet. Roedd y gweithwyr yn monitro cynnydd academaidd y bobl ifanc, a'r newid ynddynt o ran cymhelliant ac ymddygiad.

Esboniodd nifer o bobl ifanc, a oedd dan oruchwyliaeth y Tîm Troseddau Ieuenctid, faint yr oeddent yn gwerthfawrogi'r cymorth yr oedd staff ar y fferm yn ei roi iddynt. Gallai'r bobl ifanc nodi a dangos faint yr oeddent wedi datblygu'u dysgu a'u hagweddau.

Fodd bynnag, mae pob prosiect ar y fferm yn seiliedig ar gyllid tymor byr sy'n ansicr yn aml. Mae llawer o'r gwaith yn dibynnu ar ymrwymiad ac ewyllys da y staff gwirfoddol a'r staff cyflogedig.

Atodiad 3: Enghreifftiau o'r modd y mae TTIau yn cysylltu â chynlluniau cymorth ymddygiad eu AALlau

Mae'r tabl canlynol yn dangos y ffyrdd amrywiol y mae TTIau yn cysylltu â chynllun cymorth ymddygiad eu AALl.

TTI	Cyswllt â'r cynllun cymorth ymddygiad
Blaenau Gwent	Mae'r cynllun cymorth ymddygiad yn nodi'r modd y bydd yn gwella gwaith amlasiantaethol a'r angen i'r gwasanaeth lles addysg a'r TTI gysylltu â'i gilydd.
Caerffili	Mae'r cynllun cymorth ymddygiad yn nodi'n glir y modd y bydd yr AALl a'r TTI yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'r TTI yn gwneud cyfraniad at y cynllun cymorth ymddygiad, ac mae'r TTI yn cael ei gynnwys mewn llawer o fentrau'r awdurdod i wella ymddygiad a mynd i'r afael â gwaharddiadau ac ymddieithrio o addysg.
Sir Ddinbych	Mae'r cynllun cymorth ymddygiad yn nodi bod y TTI yn 'rhan annatod o strategaeth cymorth yr awdurdod i ddisgyblion'.
Sir y Fflint	Mae'r cynllun cymorth ymddygiad yn nodi'r TTI fel asiantaeth bartner. Mae gwaith y TTI yn gysylltiedig â thargedau ar gyfer lleihau achosion o wahardd, a chysylltiadau gwell rhwng unedau cyfeirio disgyblion ac asiantaethau partner.
Sir Benfro	Mae'r cynllun cymorth ymddygiad yn disgrifio'r TTI fel 'partner allweddol' wrth gefnogi pobl ifanc sy'n gysylltiedig â throseddu.
Abertawe	Mae rheolwr y TTI yn aelod o grŵp gweithredu'r cynllun cymorth ymddygiad. Mae'r grŵp hwn yn cysylltu cynlluniau, yn meddwl yn strategol ac yn cynllunio gweithgarwch gweithredol. Mae un o'r amcanion yn y cynllun cymorth ymddygiad yn ymwneud yn benodol â'r TTI. Ei nod yw cael effaith gadarnhaol ar leihau troseddu a

	phoendod ymhlith ieuenctid yn Abertawe.
Bro Morgannwg	Mae'r cynllun cymorth ymddygiad yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyswllt agos swyddogion â Swyddog Lles Addysg y TTI.
Ynys Môn	Mae'r cynllun cymorth ymddygiad yn nodi bod swyddog addysg yr AALl dros ysgolion uwchradd yn gyfrifol am gysylltiadau â'r TTI.

Atodiad 4: Y modd y mae AALlau yn darparu hyfforddiant priodol i weithwyr TTIau

Mae'r tabl canlynol yn dangos y modd y mae AALlau yn gweithio'n dda gyda gweithwyr TTI i ddarparu hyfforddiant priodol mewn materion addysgol.

TTI	Cyfleoedd hyfforddi
AALl Sir y Fflint	Mae staff y TTI yn mynychu'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan y Staff Cymorth Ymddygiad, Seicolegwyr Addysg a Chymorth Cwricwlwm
AALl Casnewydd	Mae'n ariannu gradd meistr rhan-amser gweithiwr addysg y TTI mewn anghenion addysgol arbennig oherwydd lefelau uchel anghenion addysgol ychwanegol pobl ifanc sy'n troseddu.
AALl Sir Benfro	Mae'n cynnwys gweithwyr y TTI yn ei hyfforddiant ar amddiffyn plant, a'i drefniadau ar gyfer plant y gofelir amdanynt.
AALl Abertawe	Mae staff canolfan CA4 yn darparu cymorth a chyngor i helpu'r TTI ddatblygu pecynnau addysg ar gyfer disgyblion gyda Rhaglenni Goruchwylio ac Arolygu Dwys. Hefyd, mae'r ganolfan yn cynnig ymweliadau, arsylwi a chysgodi ar gyfer staff TTI newydd fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Atodiad 5: Y modd y mae TTIau yn gweithio gyda'r ystâd ddiogel i helpu pobl ifanc drosglwyddo'n esmwyth i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth pan gânt eu rhyddhau o'r ddalfa

Caerffili/Blaenau Gwent	Mae swyddog lles addysg yn mynychu cyfarfodydd cynllunio dedfrydau a chyfarfodydd cyn rhyddhau ar gyfer pob person ifanc o oed ysgol. Ers i'r system hon gael ei rhoi ar waith, mae pob person ifanc o dan 16 oed wedi dod allan i leoliad addysg. Mae'r TTI wedi cyflwyno prosiect peilot ar gyfer achosion caethiwo o ardal Blaenau Gwent mewn partneriaeth â'r CCAH. Hefyd, mae'n cynnwys defnyddio CDUau yn y CLG newydd gyda'r AALlau.
TTI Caerdydd	Mae gan y TTI swydd Swyddog Lles Addysg dynodedig yn y TTI sy'n mynychu adolygiadau'r gorchymyn cadw a hyfforddi.
TTI RCT	Mae gan y TTI swyddog datblygu a hyfforddi dynodedig sy'n olrhain pob person ifanc sy'n treulio cyfnod yn y ddalfa. Mae'r rôl hon yn helpu llunio perthynas weithio effeithiol gyda'r ystâd ddiogel. Mae gweithwyr AHaCh yn mynychu rhan fwyaf o gyfarfodydd cynllunio'r swyddog datblygu a hyfforddi. Mae hyn wedi galluogi'r gweithiwr addysg cyn-16 i gadw lleoliadau AALl ar gyfer pobl ifanc ar agor, neu i gael strategaeth esmwyth ar gyfer mynd allan pan gaiff y person ifanc ei ryddhau. Mae gweithwyr ôl-16 TTI RCT wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â Gwasanaeth Connexions mewn nifer o leoliadau diogel. Mae hyn wedi galluogi i ffeil gwaith AHaCh y person ifanc gael ei hanfon ymlaen at y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid cyn i'r person ifanc gael ei ryddhau. Mae hyn wedi osgoi dyblygu asesiadau o fedrau allweddol a gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau. Mae'r gweithwyr yn

	trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r darparwyr hyfforddiant perthnasol.